Undebau Credyd o Gwmpas y Byd

Banciau cydweithredol yw Undebau Credyd a'u haelodau sydd berchen arnyn nhw ac sy'n eu rheoli. Maen nhw'n dod â phobl a sefydliadau yn eich cymuned at ei gilydd drwy annog pobl i helpu ei gilydd. Mae llawer o fentrau cydweithredol o gwmpas y byd yn rhannu'r egwyddor hon o helpu.

Fe ddaeth Undebau Credyd yn boblogaidd iawn yn Jamaica, Gogledd America ac Iwerddon yn ystod y 1940au a'r 50au. Roedden nhw wedi'u seilio ar syniadau meddylwyr cydweithredol arloesol fel Robert Owen. Bellach, mae tua 49,000 o Undebau Credyd yn gwasanaethu 177,000,000 o aelodau mewn 96 o wledydd. Yn Iwerddon mae 50% o'r boblogaeth yn aelod o Undeb Credyd. Heddiw, maen nhw'n tyfu'n gyflym yn Ne America, Affrica a'r Dwyrain Pell.

Mewn ardaloedd gwledig heb fanciau, Undebau Credyd yn aml yw'r unig ffordd o gael gwasanaethau ariannol. Felly maen nhw'n helpu pobl dlawd o gwmpas y byd. Yn ogystal â'r help ymarferol hwn, maen nhw'n rhoi teimlad o gael rheolaeth dros rywbeth i'r bobl leol am mai'r nhw sydd biau ac sy'n rhedeg yr Undeb Credyd. Bydd hefyd yn rhoi hwb i'r ysbryd cymunedol yn yr ardal.

CU@theCU Wela i di yn yr Undeb Credyd!